
*Rhif*: ***15*** *Enw'r Ardal o Gymeriad Morwedd:* **Pentir Tyddewi**




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata Arolwg Ordnans / © Crown copyright and database rights Ordnance Survey 100022534, 2020
Sources: Ordnance Survey, Seazone, Pembrokeshire Coast National Park Authority, Natural Resources Wales

**ACM15:Pentir Tyddewi**



*Pentir Tyddewi yn edrych ar draws Traeth Mawr o Garn Rhosson*



*Yr olygfa tua'r gorllewin o Garn Llidi yn dangos adfeilion o'r Ail Rhyfel Byd*

### Disgrifiad Cryno

Pentir ac arfordir gogleddol creigiog agored ar drwyn gorllewinol penrhyn Tyddewi, gyda Charn Llidi yn gefnlen iddo. Mae brigiadau craig a llystyfiant lled-naturiol yn amgylchynu nodweddion hanesyddol. Mae i'r ardal gymeriad gwyllt ac mae yma olygfeydd panoromig nas difethwyd, sydd yn boblogaidd gyda cherddwyr. Nid oes mynediad hawdd at y môr.

### Nodweddion Allweddol

- Pentir creigiog, agored o gymeriad gwyllt gyda chlogwyni ac arfordiroedd creigiog ar drwyn gorllewinol penrhyn Tyddewi, gyda thirwedd amlwg iawn Carn Llidi yn gefnlen iddo.
- Moroedd agored, yn wynebu'r gogledd a'r gorllewin.
- Bywyd gwyllt pwysig yn y dyfroedd ac ar y ffin arfordirol.
- Brigiadau craig a nodweddion carreg rhwng glaswelltir a rhostir sych a gwlyb lled-naturiol, gyda rhedyn yn llechfeddiannu mewn mannau.
- Mae'r nodweddion hanesyddol yn cynnwys caer bentir, olion aneddiad, welydd a ffiniau caeau hynafol.
- Mae'r diffyg aneddiad yn golygu bod yr ardal yn un dywyll, ac heb lygredd golau.
- Golygfeydd godidog nas difethwyd tua'r gogledd i'r môr agored a thua'r gorllewin a'r de i'r ynisigau a'r ynysoedd.
- Mae'r olygfa o Garn Llidi yn un o olygfeydd eiconig y Parc.
- Yn boblogaidd gyda cherddwyr llwybr yr Arfordir ac ymwelwyr i Draeth Mawr oherwydd yr ymdeimlad o bellenigrwydd a llonyddwch.

### Dylanwadau ffisegol

Mae'r pentir arfordirol creigiog garw ac amlwg hwn yn rhedeg mewn cyfeiriad gogledd ddwyreiniol – de orllewinol o Benllechwen (53m aod) i Bentir Tyddewi (49m aod) ac yn codi ar y tir i gopa creigiog Carn Llidi (179m aod). Mae'r creigiau yn gabros Ordofigaidd yn streicio o'r gogledd ddwyrain – de orllewin sy'n ymwthio i siâlau duon, yn agored i'r clogwyni creigiog danheddog uchel wedi'u hindentio gan gilfachau bychain. Mae'r ardaloedd rynglanwol yn lannau creigiog o egni uchel. Mae'r arfordir yn agored iawn i erydiad gan y gwynt a'r môr drwy rathiad ac effaith hydrolig.

Mae'r gwely môr o dywod graeanllyd yn gorchuddio'r olyniaeth ymwthiol ac yn goleddfu'n gymhedrol (1-10$^{o}$) i'r gogledd orllewin. Mae'r moroedd a'r clogwyni yn agored i straen uchel o'r gwynt a'r môr. Mae cerhyntau'r llanw yn llifo ar gyfeiriad gogledd ddwyrain – de orllewin, ac mae dyfroedd garw oddiar y pentir lle y mae trolif yn ffurfio. Mae'r llif llanw yn <3 not.

Mae'r môr a'r ardaloedd rhynglanwol yn rhan o SAC Morwedd Sir Benfro. Mae'r clogwyni wedi'u clustnodi fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Clogwyni Sir Benfro, ac hefyd yn Ardal Bwysig i Adar fel y'i diffinir gan yr RSPB. Mae'r ardal yn rhan o Ardal Gwarchodaeth Arbennig y Frân Goesgoch. Mae'n bosib gweld morloi wrth waelod y clogwyni ac mae llamhidyddion yn nofio'n aml drwy'r dyfroedd hyn.

Oherwydd ei natur agored mae'r pentir ei hun gan fwyaf yn graig noeth ond mae gweddill y penrhyn a Charn Llidi gan fwyaf wedi'i orchuddio â llystyfiant a rhostir sych a gwlyb lled-naturiol gyda rhedyn yn llechfeddiannu mewn mannau. Mae'r ardal yn cynnal brain coesgoch, yr hebog tramor, infertebrata a chennau prin. Mae llawer brigiad creigiog ac mae'r graig yn y golwg mewn llawer man.

### Dylanwadau diwylliannol

Mae'r penrhyn hwn yn un o dirnodau mawr llwybrau môr Gorllewin yr Iwerydd, tirnod a oedd yn hysbys i'r cynfyd clasurol. Soniwyd amdano yn *Geography* Ptolemy, lle y'i elwid yn *Octapitarum promontorium*, sy'n awgrymu bod y Rhufeiniaid yn gyfarwydd â'r ardal. Mae'n bosib bod Clawdd y Milwyr yn un rhan o amddiffynfa anferth, a awgrymir gan y welydd amddiffynnol mewndirol sy'n amgau tua 25 ha o'r penrhyn, yn hytrach na chaer bentir fechan. Mae'r systemau cae yn dyddio o'r cyfnod Cynhanes ac o bosib wedi parhau i gael eu defnyddio hyd at y cyfnod Canoloesol. Cofnodwyd ychydig llongddrylliadau ar yr arfordir creigiog gan gynnwys y Frederick,

a suddwyd tua 1832, y Nimrod yn 1860 a'r Glenisla yn 1886. Tarodd awyren, sef Martin B-26 Marauder, yn erbyn ochr Carn Llidi mewn niwl trwchus yn 1943 ac fe godwyd cofeb i gofio'r digwyddiad.

Mae'r henebion rhestredig yn cynnwys:

- PE071 (Clawdd y Milwyr – caer bentir): cymuned: Tyddewi (yn rhannol yn SCA16 hefyd)
- PE093 (Penmaen Dewi - system gaeau): cymuned: Tyddewi (yn rhannol yn SCA16 hefyd)
- PE042 (bedd cellog): cymuned: Tyddewi
- PE054 (Coetan Arthur- bed cellog): cymuned: Tyddewi

Mae'r ardal o fewn ffiniau Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Penrhyn Tyddewi ac Ynys Dewi.

Paentiodd Graham Sutherland, yr artist, llawer o luniau o gilfachau a mannau eraill ar Bentir Tyddewi.

Defnyddir yr holl ardal led-naturiol ar gyfer porfa i ferlod, gwartheg a defaid. Gwelir olion welydd adeiladau, ffiniau caeau ac amddiffynfeydd. Mae cerdded ar hyd Llwybr Arfordir Penfro ar hyd dop y clogwyni yn boblogaidd oherwydd ei fod yn agos i Draeth Mawr a'i faes parcio. Mae dringo ac arforgampau yn boblogaidd ar hyd yr arfordir. Cynhelir genweirio môr oddiar greigiau Pentir Tyddewi. Mae cychod criwsio modur ac iotiau'n pasio heibio i'r pentir wrth hwylio drwy Swnt Dewi.

Mae pysgota yn yr ardal yn cynnwys rhwydi gosod, potio am gimychod a chrancod [gan fwyaf], gyda'r potensial am dreillio ysgafn. Yn y gorffennol rhoddwyd trwydded Rownd 24 i'r ardal ar gyfer olew a nwy a gellir gwneud ceisiadau yn y dyfodol.

**Ansoddau esthedig, canfyddiadol a phrofiadol**

Mae'r penrhyn yn agored iawn, gan ymwthio i'r môr mewn ffordd wyllt, yn cyfleu'r teimlad o raddfa eang ac o fod yn agored. Mae'r clogwyni a'r arfordir creigiog yn ddramatig, yn danheddog ac yn onglog. Mae'r rhan fwyaf o lefydd yn aroglu'n gryf o'r môr ac yn agored i'r gwynt, ac mae'r tonnau'n creu synnau byddarol pan fyd y moroedd yn fwy garw. Mae'r tir yn wead garw, cyfoethog ac amrywiol o frigiadau'r creigiau a welydd cerrig yn gymysg â grug, rhedyn a gwair bras. Mae 'na olygfeydd panoramig ac eang nas difethwyd i'r môr agored, i'r Bishops and Clerks ac ar draws Traeth Mawr i Ynys Dewi. Mae'r ail o'r rhain yn un o olygfeydd eiconig y Parc. Yn ystod yr haf gall y niferoedd o gerddwyr sy'n defnddio Llwybr yr Arfordir a llwybrau eraill amharu ar y llonyddwch. Serch hynny, yn gyffredinol mae i'r arfordir lefel uchel o naturioldeb, o bellenigrwydd a llonyddwch.

**Buddion a gwasanaethau diwylliannol**

Mae'r ardal yn cyfrannu'n sylweddol tuag at wasanaethau hamdden ar ffurf gwylio bywyd gwyllt a cherdded, at dreftadaeth naturiol oherwydd ei arfordir nas difethwyd, ei phwysigrwydd o ran daeareg a chadwraeth natur ac at wasanaethau diwylliannol ac ysbrydol o ran ei hanes amrywiol ac ymdeimlad cryf o ofod ac o ddianc.

## Grymoedd am newid

**Crynodeb**

Erydiad araf o glogwyni gwrthsafol. Mae'r cynllun rheoli traethlin yn dweud 'gwnewch dim'.

Mae arforgampau yn cael sylw cynyddol i weld os ydynt yn effeithio ar gynefinoedd.

Mae cerddwyr yn erydu Llwybr yr Arfordir a llwybrau eraill.

Gallai cynhyrchu egni o'r môr – os bydd y cynllun yn mynd yn ei flaen – effeithio'n sylweddol ar gymeriad yr ardal.

Byddai trwyddedau ar gyfer olew a nwy yn y dyfodol yn newid cymeriad yr ardal pe bai'n cael ei datblygu

**Grymoedd allweddol am newid**

| Ansoddau Arbennig | Prosesau naturiol/newid yn yr hinsawdd | Pwysedd ymwelwyr | Defnydd morol - masnachol a physgota | Egni ar y môr | Pwysedd datblygiad | Newid mewn rheolaeth tir | Defnydd gan y Weinyddiaeth Amddiffyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysblander yr arfordir | | | | | | | |
| Ynysoedd | | | | | | | |
| Amrywiaeth yn y tirlun | | | | | | | |
| Pellter, llonyddwch ac Ardal Wyllt | | | | | | | |
| Daeareg Amrywiol | | | | | | | |
| Cyfoeth o Gynefinoedd a Bioamrywiaeth | | | | | | | |
| Cyfoeth o Archaeoleg | | | | | | | |
| Cymeriad Nodweddiadol yr Aneddiad | | | | | | | |
| Treftadaeth Ddiwylliannol | | | | | | | |
| Mynediad at y Parc | | | | | | | |
| Lle i Anadlu | | | | | | | |
| Allwedd | | Newid i'r ardal sy'n effeithio ar y nodwedd arbennig ddewisol | | | | | |

## Sensitifeddau Allweddol

Morlin bylchog serth gyda chlogwyni a chilfachau yn ffurfio ffin arfordirol naturiol.

Llystyfiant glaswelltir / rhostir lled naturiol.

Mae cymeriad ac arwyddocad y nodweddion yn cynnwys henebion a ffiniau / patrymau cae.

Mae Llwybr Arfordir Penfro yn dderbynnydd sensitif.

Diffyg llygredd golau.

Presenoldeb ymwelwyr yn ystod y tymor.